**Diwrnod arall yn dost yn y gwely**

Fe'm lladdwyd, fel gwair
yr ail gynhaeaf, a'm gosod i orffwys
ar fy ngwely, tra fo peiriant salwch
yn rhuo llofruddiaeth

dau gae i ffwrdd. Mae'r ysbryd
gorweddol yn hanner effro
i siffrwd creaduriaid y meddwl.
Mae'r boda a'r brain

uwchben yn barod. Chi nerfau'r
dychymyg, rhof fy nghorff
rhyngoch chi a'r rhai rheibus ond rhedwch
tra medrwch, da chi, am loches

y cloddiau – na, nid fi, ond y gerdd! –
mae'n amser: daw'r barcud i hela,
a chyn hir, fe ddychwel y baler
i ddechrau o ddifri ar y cywain.

Gwyneth Lewis